# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 7FED CHWEFROR, 2017**

Lleoliad

**Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 31.01.17)

AELODAETH / MEMBERSHIP

AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS

Y Cynghorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

**CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS**

Mr Iwan Trefor Jones

**PENNAETH CYLLID**

Dafydd Edwards

PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau
Mrs Menna Wynne Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Kerry Parry - Ysgol Ganllwyd

UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth a Bodfeurig

Meirionnydd
Disgwyl enwebiad fel olynydd i Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr
Mrs Llinos Lloyd, Corff Cysgodol Dalgylch y Gader,

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Cyng. Michael Sol Owen, Ysgol Glan y Mor,

ESGOBAETH / DIOCESE

Disgwyl enwebiad

YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS

(Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination)

YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion / Observers :**

Mr Arwyn Lloyd Thomas, Pennaeth Addysg / Head of Education Service
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg / Senior Education Resources' Manager
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 7 - 12

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2016.

(Copi'n amgaeedig)

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

(i) Penderfyniad Y Cabinet 13 Rhagfyr 2016 (gweler tud. 5 ar y ddolen isod) OO

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g1842/Penderfyniadau%2013eg-Rhag-2016%2013.00%20Y%20Cabinet.pdf?T=2&LLL=1

(ii) Adrodd ar waith ymchwil i gyllideb a chynnydd diffyg ariannol Ysgol Tywyn OO

(iii) Diweddariad Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2017/18 i 2019/20 OO

**5. RHAGOLWG BALANSAU YSGOLION 31 MAWRTH 2017**

I dderbyn adroddiad y Rheolwr Cyllid. HO

**6. YMGYNGHORIAD AR NEWID GEIRIAD CYNLLUN ARIANNU YSGOLION MEWN PERTHYNAS Â THROSGLWYDDO BALANSAU YSGOLION SY'N CAU** 13 - 19

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg.

(Copi'n amgaeedig)

**7. GWASANAETH TALU AR-LEIN** 20 - 26

I ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg.

(Copi'n amgaeedig)

**8. GRANT 6ED DOSBARTH 2017/18**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod. HO

**9. GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION 2017/18**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod. HO

**10. GRANT GWELLA ADDYSG 2017/18**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod. HO

**11. GRANT £100 MILIWN AR LEFEL CENEDLAETHOL DROS 5 MLYNEDD Y CYNULLIAD YMA 2016-2020**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod. HO

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog, ar 29 Tachwedd 2016 o 2.00 p.m. hyd 3.30 p.m.**

**Yn Bresennol:**

Mr Godfrey Northam (Cadeirydd) – Llywodraethwr Ysgol Llanllechid

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Penaethiaid Ysgolion :** Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal/Edmwnd Prys), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Llion Williams (Ysgol y Garnedd), Kerry Wyn Parry (Ysgol Ganllwyd)

**Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)

**Llywodraethwyr:** Michael Sol Owen (Ysgol Glan y Môr)
Llinos Lloyd (Corff Cysgodol Bro Idris)

**Swyddogion:** Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid)
Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Ymddiheuriadau: Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Dafydd Meirion Roberts (Ysgol Brynrefail), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn), Trystan Larsen (Ysgol Rhostryfan), Gwilym Jones (Ysgol Borth y Gest).**

**Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Fforwm:**

**Kerry Parry, Ysgol Ganllwyd**
**Llion Williams, Ysgol y Garnedd**

**a chymerwyd y cyfle i ddiolch i Gwyn Howells, Pennaeth Ysgol y Gelli, am ei ymroddiad a'i gefnogaeth i waith y Fforwm yn ystod y blynyddoedd y bu'n aelod o'r Fforwm a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol yn ei ymddeoliad.**

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Peredur Jenkins a Mrs Llinos Lloyd yn Eitem 7 ar y rhaglen gan eu bod yn llywodraethwyr ar gorff cysgodol Ysgol Bro Idris.

## 2. <u>COFNODION</u>

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2016 fel rhai cywir.

## 2.1 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Adroddodd y Pennaeth Cyllid bod setliad grant 2017/18 llywodraeth leol yn dangos cynnydd o 0.1% ar gyfartaledd i awdurdodau lleol Cymru, sydd wedi'w groesawu gan rai, er ei fod yn annigonol i gynnal parhad ein gwasanaethau cyfredol oherwydd chwyddiant, yr ardoll prentisiaeth, ayb, a bod costau annisgwyl ym maes gofal cymdeithasol hefyd yn taro'r Cyngor. Fodd bynnag, atgoffwyd y Fforwm bod gwaith cadarn wedi cael ei gyflawni flwyddyn yn ôl i wynebu'r toriadau, a chynlluniau ar droed, er bu llithriad ag ambell strategaeth, megis anghenion dysgu ychwanegol. Ni ragwelir gofyn am gyfraniad ychwanegol i'r £4.3m gan yr ysgolion yn 2017/18. Yn dilyn derbyn y setliad drafft, gwnaethpwyd asesiad a rhagwelir y bydd rhaid i'r Cyngor gynllunio ar gyfer arbediad o oddeutu £8m dros y blynyddoedd 2018/19 – 2019/20. Ychwanegwyd nad oedd rhai awdurdodau wedi bod mor ddarbodus â Chyngor Gwynedd, a rhagwelwyd toriadau i ysgolion dros y ffin yn 2017/18.

Nododd Bennaeth Uwchradd bryder o safbwynt rhagolygon y sector uwchradd yn 2017/18 a'u bod yn wynebu lleihad mewn niferoedd disgyblion am un flwyddyn a olygai oddeutu £400k o golled 'demograffi' i'r sector a darganfod oddeutu £300k o arbedion. Rhagwelir blwyddyn anodd iawn i'r sector uwchradd ac amlygwyd yr angen i osgoi gorfod diswyddo staff ym Medi 2017 ac wedyn ail-gyflogi staff y flwyddyn ganlynol. Nodwyd ymhellach bod ysgolion wedi gwneud toriad o oddeutu 14% i'r staff dysgu flwyddyn ddiwethaf a bod sefyllfa'r niferoedd disgyblion yn ergyd i'r sector uwchradd. Gofynnwyd tybed a fyddai modd ystyried cynllun pontio i gynorthwyo ysgolion mewn sefyllfaoedd ariannol anodd.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Addysg nad oedd cynllun o'r fath ar hyn o bryd ond y gallasai gyflwyno pryder y sector uwchradd i'r Cabinet bod ysgolion yn wynebu sefyllfa erchydus.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Adnoddau ni ellir peidio ymgymryd â'r arbedion hir-dymor, ond y byddai modd ystyried cynllun un-tro i gynorthwyo ysgolion uwchradd am y flwyddyn anodd. Holodd y Cadeirydd os byddai cynllun cymorth o'r fath yn ystyried balansau'r ysgolion unigol, a cytunodd y swyddogion i edrych ar hynny.

**Penderfynwyd:**

**(a) Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Adran Gyllid ystyried cynllun pontio dros dro ar gyfer cynorthwyo ysgolion uwchradd all fod yn wynebu trafferthion ariannol, gan ystyried gwarged balansau sydd dros 5%.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Adnoddau gyfleu pryder y sector uwchradd yn deillio o'r uchod.**

## 3. YSGOLION GYDA DIFFYG BALANSAU

Cyflwynwyd, yn unol â chais y Fforwm Cyllideb Ysgolion, adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu cefndir ynghyd ag atodiad a oedd yn rhestru'r ysgolion hynny sydd gyda diffyg balansau.

Tynnwyd sylw bod y nifer o ysgolion gyda diffyg wedi cynyddu a bod 4 ysgol wedi bod gyda diffyg ar ddiwedd pob blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf.

Fodd bynnag, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg, bod amgylchiadau ysgolion yn gallu amrywio yn flynyddol ac yn dilyn trafodaeth gyda'r ysgolion a oedd wedi eu hamlygu'n felyn ar yr atodiad ynghlwm i'r adroddiad, nodwyd fel a ganlyn ynghylch yr ysgolion isod:

| | | |
|---|---|---|
| Llanrug | - | rhagwelir na fyddai diffyg ar ddiwedd 2016/17 |
| Rhostryfan | - | rhagwelir na fyddai diffyg ar ddiwedd 2017/18 |
| Hendre | - | rhagwelir na fyddai diffyg ar ddiwedd 2017/18 |
| Y Berwyn | - | y byddai lleihad yn y diffyg erbyn 2016/17 |

Tynnwyd sylw bod Ysgolion Y Berwyn a Thywyn yn derbyn gwarchodaeth staffio ac awgrymwyd y dylid cynnal gwaith ymchwil pellach yng nghyd-destun ysgol Tywyn pam nad yw'r ysgol yn gallu gosod cyllideb gytbwys o fewn y gyllideb.

Rhagwelir y byddai gweddill yr ysgolion (ac eithrio Ysgol Rhosgadfan yn seiliedig ar gytundeb am gyfnod o amser) yn clirio'r diffyg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Byddai unrhyw warged /diffyg o'r ysgolion hynny sydd yn cau yn trosglwyddo i'r awdurdod ac fe fyddai'r ysgolion newydd yn derbyn un gyllideb
(b) Ei bod yn annhebygol y byddai ambell ysgol yn lleihau'r diffyg a bod ysgolion eraill yn ymdrechu a brwydro i gynnal eu hysgolion
(c) Awgrymwyd y dylid anfon neges i'r ysgolion sydd gyda diffyg bod disgwyliad iddynt ymdrechu'n galed i leihau'r diffyg

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Uwch Reolwr Gwasanaethau Adnoddau Addysg :**

**(i) anfon llythyr yn cyfleu safbwynt y Fforwm Cyllideb Ysgolion y dylai'r ysgolion hynny sydd â diffyg balansau ymdrechu'n galed i leihau'r diffyg ariannol**
(ii) **drefnu ymchwil pellach i gyllideb a chynnydd diffyg ariannol Ysgol Tywyn.**

## 4. YSGOLION GYDA GWARGED BALANSAU

Cyflwynwyd, yn unol â chais y Fforwm Cyllideb Ysgolion, adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu manylion ynglŷn â'r ysgolion hynny sydd gyda gwarged balansau dros 5%.

Tywyswyd yr Aelodau drwy'r atodiad ynghlwm i'r adroddiad gan y Rheolwr Cyllid gan nodi bod cyfanswm nifer ysgolion gyda gwarged dros 5% wedi lleihau, gyda'r cyfanswm ariannol yr elfen gwarged dros 5% wedi cynyddu. Nodwyd bod 87 ysgol wedi bod gyda gwarged dros 5% ar ryw bwynt yn ystod y tair blynedd diwethaf a 50 ysgol wedi bod gyda gwarged dros 5% ar ddiwedd pob blwyddyn o'r cyfnod (yr ysgolion hynny amlygwyd yn felyn yn yr atodiad).

Roedd y Rheolwr Cyllid o'r farn nad oedd y balansau ar y cyfan yn peri pryder gan fod amgylchiadau ysgolion yn gallu newid a rhai ysgolion yn cydweithio drwy orfod rhannu penaethiaid ac felly nad oedd y balansau yn rhai parhaol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Mynegwyd pryder gan yr Aelod Cabinet Addysg bod cynnydd yn y nifer o ysgolion sydd gyda gwarged o dros 10% a thra'n derbyn bod sefyllfaoedd pob ysgol yn wahanol, roedd yn anodd iddo fel Aelod Cabinet ddadlau dros achos ysgolion yn enwedig pan fo'r Cyngor o dan bwysau aruthrol o safbwynt toriadau yn y gyllideb.
(b) Dylai unrhyw warged sydd gan yr ysgolion gael ei ddefnyddio ar gyfer y disgyblion cyfredol sydd yn yr ysgolion ac y dylid dwyn i gyfrif yr ysgolion hynny sydd gyda balansau dros 20%
(c) Byddai'n werthfawr a defnyddiol i ysgolion ar gyfer mantoli eu cyllidebau i wybod beth yw'r rhagolygon / faint sydd ar ôl fel bo modd iddynt gael gwell darlun o beth yw'r ffigwr real
(d) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â monitro'r ysgolion hynny sydd gyda balansau dros y trothwy, eglurwyd bod proses mewn lle gydag ysgolion yn cyflwyno cynllun a'r swyddogion perthnasol yn eu hystyried.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid:**

**(i) Gyflwyno mantolen i gyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion ym mis Ionawr yn nodi colofn ychwanegol ar gyfer rhagolygon balansau ar ddiwedd 31 Mawrth 2017 er mwyn rhoi gwell darlun o faint yw'r ffigwr real sydd gan ysgolion yn weddill ar ôl gosod eu cyllideb.**
**(ii) Gydweithio gydag ysgolion ar gyfer cyflawni'r uchod.**

## 5. METHODOLEG CYLLIDO YSGOL DDILYNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu methodoleg ac egwyddorion ar gyfer cyllido Ysgol Ddilynol.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid y bydd ysgol ddilynol newydd sef Ysgol Bro Idris yn agor ym mis Medi 2017 a rhoddwyd ystyriaeth i sut y byddir yn ariannu'r ysgolion dilynol. Eglurwyd ymhellach o safbwynt methodoleg y byddir yn mewnbynnu ystadegau addysg Gynradd ar gyfer pob safle'r Ysgol Ddilynol a'u rhedeg yn unigol drwy'r Fformiwla Cyllido Ysgolion Cynradd. Yn yr un modd y byddir yn mewnbynnu'r ystadegau addysg Uwchradd ar gyfer pob safle'r Ysgol Ddilynol a'u rhedeg yn unigol trwy'r Fformiwla Cyllido Ysgolion Uwchradd. Cyfanswm y symiau wedi'i chyfrifo ar gyfer pob safle fydd cyfanswm dyraniad cyllido'r Ysgol Ddilynol.

O safbwynt yr egwyddorion, eglurodd y Rheolwr Cyllid ar sut y cyfrifir cyfartaledd cyflog Ysgol Ddilynol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a'r nifer o ysgolion o fewn dalgylch yr Ysgol Ddilynol sydd yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm nifer athrawon, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid y byddai'r ysgolion hynny yn parhau i dderbyn y warchodaeth ar gyfer ariannu Rheolwr / athro a bod y warchodaeth oddeutu £600,000 yn y sector Gynradd.

Eglurwyd ymhellach mai un gyllideb a sefydlir i'r Ysgol Ddilynol a'r corff llywodraethol fyddai'n gyfrifol am fodelu'r gyllideb.

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau y byddai'r Ysgol Ddilynol yn un arloesol ac o safbwynt llwyddiant i'r model pwysleisiwyd bod yn rhaid i'r gyllideb fod yn hyfyw i greu sefydlogrwydd dros gyfnod o 3 / 4 blynedd.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a gwerthu'r safleoedd sydd yn cau, nodwyd posibilrwydd nad oedd modd eu gwerthu oherwydd amodau hanesyddol sy'n bodoli ar yr adeiladau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r fethodoleg cyllido Ysgol Ddilynol.**

## 6. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH 2017/18 i 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg gan nodi mai'r bwriad eleni ydoedd symlhau'r cytundebau. Byddir yn gofyn i'r swyddogion priodol gynllunio'r cytundebau ar gyfer 2017/18 am gyfnod o 3 blynedd, ymgynghori ar y cynnwys gyda'r ysgolion, ac fe fyddir yn adrodd yn ôl i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion gyda'r ymatebion yn cyfarfod Haf 2017. Ychwanegwyd y byddir yn gorfod rhoi ystyriaeth i fodel gwahanol eleni i gyfarch yr ysgolion dilynol sef Bro Idris a'r Berwyn.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

## 7. PENNU DYDDIADAU AR GYFER CYFARFODYDD

Adroddwyd er bod 7 Chwefror 2017 wedi ei bennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm, teimlwyd y byddai'n fwy derbyniol i gynnal cyfarfod ddiwedd mis Ionawr a gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau drefnu gyda'r Cadeirydd a'r swyddogion priodol ddyddiad cyfleus.

Gwnaed cais i gadw'n glir o brynhawniau Mawrth, os yn bosibl.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**<u>CADEIRYDD</u>**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 7 Chwefror 2017 |
| **TEITL** | Ymgynghori ar newid geiriad Cynllun Ariannu Ysgolion mewn perthynas â throsglwyddo balansau ysgolion sy’n cau |
| **PWRPAS** | Canlyniad yr ymgynghori gydag ysgolion |
| **ARGYMHELLIAD** | Argymell i’r Cabinet newid geiriad cymal 4.8 o’r Cynllun Ariannu Ysgolion yn unol â’r geiriad yr ymgynghorwyd arno |
| **AWDUR** | Owen Owens |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1. Cefndir

1.1 Mae geiriad presennol cymal 4.8 o Gynllun Ariannu Ysgolion yn nodi:

***Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***

*Bydd gweddill unrhyw ysgol sy’n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu’n ddiffyg) yn eiddo i’r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, hyd yn oed lle bo’r ysgol yn olynydd i’r ysgol sy’n cau.*

1.2 Ymgynghorwyd gyda’r ysgolion (gweler Eitem 6 - Atodiad 1) ar newid geiriad cymal 4.8 i:

***Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***

*Bydd gweddill unrhyw ysgol sy’n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu’n ddiffyg) yn eiddo i’r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, heblaw i ysgol a sefydlwyd fel canlyniad i’r cau hwnnw. Mewn sefyllfa o’r fath trosglwyddir y gweddill i’r ysgol newydd o dan ddarpariaethau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.*

1.3 Nodwyd yr ystyriaethau canlynol o blaid y newid geiriad:

- Byddai unrhyw arian sydd mewn ysgolion sydd yn cau yn dilyn y disgyblion i’r ysgol newydd.

- O dan y trefniadau presennol fe all bod temtasiwn i ysgolion sydd yn cau wario'r balansau sydd ganddynt er mwyn sicrhau na fyddai'r arian yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Gellir rhagweld y byddai ysgolion sy'n cau yn gwario ar adnoddau (fyddai'n trosglwyddo i'r ysgol newydd) ond nad oedd gwir angen yr adnoddau rheiny ar yr ysgol newydd. Byddai'n llawer gwell bod yr arian yn trosglwyddo i'r ysgol newydd fyddai'n caniatáu i'r ysgol newydd gynllunio defnydd priodol o'r arian yn unol â gofynion y Cynllun Datblygu Ysgol.

- Ni fyddai unrhyw balansau diffygiol yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Fel mae'r Cynllun Ariannu Ysgolion wedi'i eirio ar hyn o bryd, does dim cymhelliant i ysgol sydd yn cau i fyw o fewn ei chyllideb. Byddai newid y geiriad yn hyrwyddo cynllunio ariannol cyfrifol mewn ysgolion gan y rhagwelir na fyddai ysgol sy'n gwybod ei bod yn mynd i gau yn dymuno rhoi unrhyw faich ariannol ychwanegol ar yr ysgol newydd fyddai'n cael ei sefydlu.

## 2. Canlyniadau'r Ymgynghoriad

2.1 Derbyniwyd 27 ymateb gan yr ysgolion (20 cynradd a 7 uwchradd). Roedd pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio un, o blaid newid geiriad cymal 4.8

2.2 Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

**Ysgolion cynradd**

- Credir fod yr addasiad i'w groesawu ac yn cyd fynd gyda Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. Cytunir na ddylai'r awdurdod elwa yn ariannol o ganlyniad i gau yr ysgol ac y dylai unrhyw arian sy'n weddill gan ysgol sy'n cau, ddilyn y disgyblion sy'n rheiny sy'n cael eu heffeithio gyda'r newidiadau. Byddai'n llawer gwell bod yr arian yn trosglwyddo i'r ysgol newydd a fyddai yn ei dro yn caniatáu i'r ysgol newydd gynllunio defnydd priodol o'r arian yn unol â gofynion y Cynllun Datblygu Ysgol.
- Cytuno gyda awgrym. Mae'r peth yn synhwyrol ac yn deg i olynydd yr ysgol sydd yn cau
- Rydym yn cytuno gyda'r datganiadau uchod
- Anfonir i hysbysu na fydd Corff Llywodraethol Ysgol y Ganllwyd yn cyfarfod eto cyn Ionawr 27 ac felly ni fyddir mewn sefyllfa i ymateb i'r ymgynghoriad dan sylw
- Dylai unrhyw gyllid gael ei drosglwyddo i'r ysgol newydd ond ni ddylai ysgol newydd orfod delio gyda diffygion ariannol ysgolion sydd wedi cau. Dylai yr arian hynny os nad yw yn dilyn i ysgol newydd sydd yn cael ei sefydlu yn sgil cau ysgolion aros yn y sector cynradd yn hytrach

na mynd yn ganolog i'r awdurdod a bod y sector cynradd yn colli y gyllideb yma

- Cytuno'n llwyr gyda'r newid geiriad a hynny gan fy mod fel pennaeth wedi wynebu sefyllfa o geisio gwario balansau tair ysgol cyn iddynt gau. Roedd hi'n sefyllfa anodd ceisio gwario gweddill y balansau a hynny cyn diwedd gwyliau'r Haf
- Synnwyr cyffredin yw bod yr arian yn dilyn disgyblion a bod yr arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n strategol yn yr ysgol newydd.
- Rydym yn cytuno gyda'r datganiadau uchod
- Trosglwyddo y balansau i'r ysgolion sydd ar ôl mewn cyfradd i nifer eu plant NEU lleihau toriadau 2017/18 drwy ddefnyddio yr arian a arbedir
- Cefnogi 4.8
- Rydym yn cytuno gyda'r newid ac yn ei groesawu.
- O safbwynt newid geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion fel bod balansau ysgolion sy'n cau yn trosglwyddo i'r ysgol newydd (yn unol á'r geiriad a nodir yn eich llythyr) rydym yn datgan fel ysgol ein bod O BLAID yr addasiad.
- Yn anffodus ni chafwyd cyfarfod o'r corff llywodraethol y tymor hwn ond anfonwyd y cynllun i'r holl aelodau yn gofyn eu barn. Dau yn unig a wnaeth ymateb a'r ddau hynny o blaid y cynnig

**Ysgolion uwchradd**

- Cytuno â'r hyn a argymhellir
- Cytuno â'r hyn a argymhellir
- Mae'r CLL yn cytuno i newid geiriad y cynllun ariannu ysgolion fel bod balansau ysgolion sy`n cau yn trosglwyddo i`r ysgol newydd. Mae`r CLL o`r farn fod y newid hwn yn creu cyd-destun cadarnach sy`n caniatau a hyrwyddo cynllunio cyllidol cyfrifol a gofalus. Mae`r CLL hefyd o`r farn fod angen ystyried yn ofalus cyn caniatáu i ddiffygion ysgol sy`n cau gael ei hysgwyddo gan sefydliad newydd. Teimlir y gall hyn olygu fod disgyblion yn dyfodol yn cael eu cosbi'n annheg am benderfyniadau`r gorffennol.
- Mae'r CLL yn anghytuno hefo`r egwyddor ac o`r farn y dylai pob ysgol newydd gael dechrau o`r newydd heb orfod ysgwyddo diffygion cyllidol hanesyddol y sefydliadau hynny sydd yn cau.
- Mae'r CLl o blaid y cynllun hwn. Nid oes gwrthwynebiad i'r cynnig gan unrhyw aelod o'r CLl.

## 3. Casgliad

3.1 Mae mwyafrif llethol yr ysgolion sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad o blaid newid geiriad cymal 4.8 o'r Cynllun Ariannu Ysgolion

## 4. Argymhelliad

4.1 Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn argymell i'r Cabinet newid geiriad cymal 4.8 o'r Cynllun Ariannu Ysgolion yn unol â'r geiriad yn 1.2 uchod.

**Addysg / Education**
**Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service**
Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens



Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**
🗎 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ owenowens@gwynedd.llyw.cymru

9 Ionawr 2017

**I sylw: Corff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig**

**Ymgynghori ar newid geiriad Cynllun Ariannu Ysgolion mewn perthynas â throsglwyddo balansau ysgolion sy'n cau**

Annwyl gyfaill

Rwyf yn dymuno derbyn eich barn ynglŷn ag addasu geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion mewn perthynas â throsglwyddo balansau ysgolion sy'n cau.

**Geiriad Presennol**

Mae cymal 4.8 o'r ddogfen Cynllun Ariannu Ysgolion presennol yn nodi:

***4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***

*Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, hyd yn oed lle bo'r ysgol yn olynydd i'r ysgol sy'n cau.*

Fodd bynnag, mae Atodlen 3 o Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn caniatáu amrywio symiau sy'n daladwy i ysgol sydd yn cael ei sefydlu yn sgìl cau un neu ragor o ysgolion i adlewyrchu i ba raddau y mae ysgol sydd wedi'i chau wedi gwario mwy na'i chyfran o'r gyllideb neu nad yw wedi gwario'r cyfan ohoni mewn unrhyw gyfnod cyllido, *h.y. gellir trosglwyddo balansau ysgol sydd yn cau i'r ysgol sydd yn cael eu sefydlu yn ei lle.*

**Addasiad i'r geiriad**

Gofynnir am eich barn mewn perthynas â newid geiriad cymal 4.8 i ddarllen fel a ganlyn:

***4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***

*Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, heblaw i ysgol a sefydlwyd fel canlyniad i'r cau hwnnw. Mewn sefyllfa o'r fath trosglwyddir y gweddill i'r ysgol newydd o dan ddarpariaethau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.*



Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.llyw.cymru

Mae sawl ystyriaeth o blaid y newid, gan gynnwys:

- Byddai unrhyw arian sydd mewn ysgolion sydd yn cau yn dilyn y disgyblion i'r ysgol newydd.

- O dan y trefniadau presennol fe all bod temtasiwn i ysgolion sydd yn cau wario'r balansau sydd ganddynt er mwyn sicrhau na fyddai'r arian yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Gellir rhagweld y byddai ysgolion sy'n cau yn gwario ar adnoddau (fyddai'n trosglwyddo i'r ysgol newydd) ond nad oedd gwir angen yr adnoddau rheiny ar yr ysgol newydd. Byddai'n llawer gwell bod yr arian yn trosglwyddo i'r ysgol newydd fyddai'n caniatáu i'r ysgol newydd gynllunio defnydd priodol o'r arian yn unol â gofynion y Cynllun Datblygu Ysgol.

- Ni fyddai unrhyw balansau diffygiol yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Fel mae'r Cynllun Ariannu Ysgolion wedi'i eirio ar hyn o bryd, does dim cymhelliant i ysgol sydd yn cau i fyw o fewn ei chyllideb. Byddai newid y geiriad yn hyrwyddo cynllunio ariannol cyfrifol mewn ysgolion gan y rhagwelir na fyddai ysgol sy'n gwybod ei bod yn mynd i gau yn dymuno rhoi unrhyw faich ariannol ychwanegol ar yr ysgol newydd fyddai'n cael ei sefydlu.

Gofynnaf am ymateb eich ysgol i'r cynnig o newid geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion fel y disgrifir uchod **erbyn dydd Gwener, 27 Ionawr, 2017**. Yn dilyn hynny byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar ddydd Mawrth, 7 Chwefror, 2017, gydag argymhelliad y Fforwm yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 7 Mawrth, 2017. Os bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r cynnig mi fydd yn weithredol o 1 Ebrill, 2017.

**Ymateb yr Ysgol**

O safbwynt newid geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion fel bod balansau ysgolion sy'n cau yn trosglwyddo i'r ysgol newydd (yn unol â'r geiriad a nodir uchod), a fyddwch yn datgan os ydy'r ysgol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif Ysgol: | | Enw Ysgol: | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O Blaid : | | Yn erbyn : | | Dim barn : | |
| Sylwadau: | | | | | |

Dychwelwch eich ymateb i Annie Sanson (anniesanson@gwynedd.llyw.cymru) **erbyn dydd Gwener, 27 Ionawr, 2017.**

Diolch

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)**

Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 7 Chwefror 22017 |
| **TEITL** | System talu ar-lein |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Owen Owens |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Cefndir**

1.1 Yn dilyn galwadau o sawl cyfeiriad, gan gynnwys ysgolion a rhieni, mae'n fwriad gweithredu cynllun fyddai'n cyflwyno system talu ar-lein ar gyfer talu am ginio ysgol yn ysgolion cynradd ac arbennig y Sir.

1.2 Llythyrwyd â'r ysgolion cynradd ac arbennig gan amlinellu bwriadau'r cynllun gan wahodd unrhyw ysgol oedd â gwrthwynebiad roi gwybod am hynny erbyn 27 Ionawr, 2017 (gweler Eitem 7 - Atodiad 1)

1.3 Nodwyd hefyd y bydd yr Awdurdod yn ysgwyddo costau sefydlu'r meddalwedd, ond bydd costau blynyddol rhedeg y system yn disgyn ar yr ysgolion. Atodwyd taenlen i'r ysgolion yn nodi'r costau blynyddol i ysgolion unigol yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ym Medi 2016 (gweler Eitem 7 – Atodiad 2).

1.4 Bwriedir cyflwyno'r system talu ar-lein ym Medi 2017.

**2. Ymateb yr ysgolion**

2.1 Derbyniwyd ymateb gan 8 ysgol. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynllun, ond roedd rhai pryderon ynglŷn â'r effaith ar glercod arian cinio.

2.2 Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd:

i) Dim ond un cwestiwn- sut mae'r rhieni sydd heb yr adnoddau angenrheidiol yn mynd i dalu?

ii) Does gennym ddim gwrthwynebiad i'r cynllun yma. Mae yn rhywbeth sydd wedi bod yn fater trafod gyda staff a llywodraethwyr yn aml llynedd. Rwy'n falch fod hwn yn cael ei sefydlu.

iii) Diolch! Wedi bod yn aros yn eiddgar am system o'r fath ers tro byd.

iv) Rwyf yn croesawu'r datblygiad o ran talu ar lein, ond lle mae hyn yn gadael ein clercod arian cinio ni felly? Byddai eu swyddi hwy yn gorfod mynd er mwyn i ysgolion allu cyllido'r cynllun. Trefniadau gormodedd ar draws ysgolion y sir?

v) Dim ond ambell gwestiwn - beth yn union fuasai'n digwydd i swydd y clerc arian cinio o Fedi 2017 ymlaen? Faint o waith gweinyddu fuasai yn yr ysgol wedyn? Rydym newydd benodi clerc newydd ac yn bryderus beth fuasai oblygiadau'r system newydd i'r gyflogaeth honno.

vi) Diolch, syniad da iawn. Beth fydd yn digwydd i'r clercod cinio sydd yn yr ysgolion? Dw i'n cymryd na fydd eu hangen.

vii) Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond mae'n swm ychwanegol i ddod allan o gyllideb yr ysgol fyddai fy unig gonsyrn. A fyddai costau hyfforddi staff ychwanegol a phwy fyddai'n gyfrifol am faterion megis e-ddiogelwch? Dwi'n cymryd na fyddai'n rhaid i bawb ei ddefnyddio, e.e. cartrefi heb fandeang. Hefyd a yw'n sustem gellid ei ddefnyddio ar ffôn/tablet? Lleihau mae nifer o gartrefi sydd â chyfrifiadur traddodiadol mae'n debyg.

viii) A oes bwriad yn sgìl hyn i ddileu swydd clerc cinio? Pwy fydd yn gwirio taliadau'r rhieni ar lein ac yn gyfrifol am gasglu a llythyru dyledion cinio? Gweld fy hun mewn ysgol fach angen gwirio dogfen Excel arall i wirio taliadau. Ei weld yn effeithiol ac yn haws ei weinyddu mewn ysgolion mwy. Wedi dweud hynny mae casglu arian a chael amser i fancio yn her yma hefyd yn enwedig gyda chymaint o fanciau yn cau ac amseroedd swyddfeydd post cefn gwlad yn anghyson.

## 3. Casgliad

3.1 Nid oes gwrthwynebiad gan yr ysgolion i'r cynllun

3.2 Roedd pryder amlwg ynglŷn â'r effaith ar swyddi clercod arian cinio. Gellir rhagweld y byddai ysgolion yn dymuno gweld effaith y system ar arferion yr ysgol cyn dod i unrhyw benderfyniad ynglŷn â gwaith eu clercod arian cinio. Buasai'n eithriadol petai ofynion casglu arian parod yn diflannu o ysgol yn gyfan gwbl o gyflwyno'r system. Mater i ysgolion unigol fyddai penderfyniadau staffio lleol.

3.3 Roedd pryder hefyd ynglŷn â chyfle i deuluoedd heb gyfrifiaduron allu wneud taliadau electronig. Fe fydd modd defnyddio dulliau talu megis PayPoint (sef talu mewn siopau, yn debyg i roi 'top-up' i drydan neu nwy). Fe fydd yn bosib defnyddio teclynnau megis ffôn/tablet.

## 4. Argymhelliad

4.1 Derbyn yr adroddiad uchod.

# Addysg / Education
## Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service
Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
owenowens@gwynedd.llyw.cymru




12 Ionawr 2017

**I sylw: Corff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd ac Arbennig**

**System Talu Ar-Lein**

Annwyl gyfaill

Yn dilyn galwadau o sawl cyfeiriad, gan gynnwys ysgolion a rhieni, mae'n fwriad gweithredu cynllun fyddai'n cyflwyno system talu ar-lein ar gyfer talu am ginio ysgol yn ysgolion cynradd ac arbennig y Sir.

Mae nifer o fanteision o gyflwyno system talu ar-lein, gan gynnwys:

- dim angen i blant fynd ag arian parod i'r ysgol
- lleihau cyfleoedd i arian fynd ar goll
- lleihau cyfleoedd bwlio ymysg plant
- rhieni yn gallu gwneud taliad unrhyw adeg (24/7)
- cofnod bod taliadau wedi'u gwneud a'u derbyn gan yr ysgol a'r rhieni
- negeseuon atgoffa i'r rhieni sydd â dyled
- lleihau gofynion trafod arian parod yn yr ysgol
- lleihau y gwaith gweinyddol sy'n ynghlwm â chasglu arian cinio
- lleihau gwaith balansio llyfrau cyfrifon
- lleihau'r arian parod sydd angen ei gadw'n ddiogel ar safle ysgol
- lleihau gofynion bancio arian

Byddai cyflwyno system talu ar-lein ar gyfer cinio ysgol hefyd yn creu cyfleon eraill mewn ysgolion. Er enghraifft, gellir defnyddio'r un system i ganiatáu taliadau ar-lein ar gyfer clybiau, tripiau, gwersi offerynnol, llefrith, nofio, ayyb.

Byddai cyflwyno system hefyd yn rhoi cyfle i ysgolion ail-ystyried eu strwythurau casglu arian yn gyffredinol.

Bydd yr Awdurdod yn ysgwyddo costau sefydlu'r meddalwedd, ond bydd costau blynyddol rhedeg y system yn disgyn ar yr ysgolion. Atodaf daenlen yn nodi'r costau blynyddol i ysgolion unigol yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ym Medi 2016.

Bwriedir cyflwyno'r system talu ar-lein ym Medi 2017.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.llyw.cymru

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

Byddaf yn cyflwyno adroddiad ynglŷn â gweithredu cynllun ar gyfer system talu ar-lein i ysgolion cynradd ac arbennig Gwynedd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 7 Chwefror, 2017. Petai gennych unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun gofynnaf i chi roi gwybod i mi erbyn dydd Gwener, 27 Ionawr, 2017.

Diolch

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)**

**COST SYSTEM TALU AR-LEIN FESUL YSGOL (CYNRADD)**

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif Cost blynyddol system talu ar-lein | £41,000 |
| Amcangyfrif Cost blynyddol system talu ar-lein fesul ysgol | £4 |

| Ysgol | Rhif | Nifer disgyblion Medi 2016 | Cost system talu ar-lein fesul ysgol |
|---|---|---|---|
| Gwaun Gynfi | 2000 | 151 | £604 |
| Nefyn | 2004 | 154 | £616 |
| Llanrug | 2006 | 269 | £1,076 |
| Abererch | 2008 | 77 | £308 |
| Abersoch | 2009 | 24 | £96 |
| Beddgelert | 2010 | 20 | £80 |
| Bethel | 2011 | 154 | £616 |
| Bodfeurig | 2013 | 66 | £264 |
| Borthygest | 2015 | 66 | £264 |
| Brynaerau | 2017 | 71 | £284 |
| Y Gelli | 2026 | 224 | £896 |
| Penybryn | 2028 | 132 | £528 |
| Treferthyr | 2033 | 121 | £484 |
| Cwm y Glo | 2035 | 26 | £104 |
| Chwilog | 2036 | 51 | £204 |
| Crud y Werin | 2039 | 68 | £272 |
| Dolbadarn | 2042 | 175 | £700 |
| Edern | 2046 | 72 | £288 |
| Felinwnda | 2047 | 21 | £84 |
| Bro Plenydd | 2048 | 81 | £324 |
| Garndolbenmaen | 2049 | 58 | £232 |
| Glanadda | 2051 | 50 | £200 |
| Llanaelhaern | 2059 | 20 | £80 |
| Llanbedrog | 2060 | 79 | £316 |
| Llangybi | 2066 | 48 | £192 |
| Llanllechid | 2069 | 274 | £1,096 |
| Llanllyfni | 2070 | 87 | £348 |
| Morfa Nefyn | 2075 | 41 | £164 |
| Baladeulyn | 2078 | 33 | £132 |
| Nebo | 2081 | 24 | £96 |
| Penisarwaen | 2085 | 55 | £220 |
| Bro Lleu | 2089 | 206 | £824 |
| Pentreuchaf | 2093 | 124 | £496 |
| Rhiwlas | 2097 | 43 | £172 |
| Rhosgadfan | 2098 | 49 | £196 |
| Rhostryfan | 2099 | 94 | £376 |
| Sarn Bach | 2103 | 48 | £192 |
| Eifion Wyn | 2104 | 205 | £820 |
| Talysarn | 2108 | 101 | £404 |
| Y Gorlan | 2110 | 96 | £384 |
| Yr Eifl | 2111 | 60 | £240 |
| Tudweiliog | 2112 | 54 | £216 |
| Waunfawr | 2113 | 150 | £600 |
| Glancegin | 2116 | 235 | £940 |
| Babanod Coed Mawr | 2118 | 34 | £136 |
| Yr Hendre | 2119 | 422 | £1,688 |

| Ysgol | Rhif | Nifer disgyblion Medi 2016 | Cost system talu ar-lein fesul ysgol |
|---|---|---|---|
| Bontnewydd | 2122 | 179 | £716 |
| Y Garnedd | 2123 | 357 | £1,428 |
| Cymerau | 2125 | 353 | £1,412 |
| Abercaseg | 2126 | 142 | £568 |
| Y Felinheli | 2127 | 183 | £732 |
| Bro Tegid | 2180 | 121 | £484 |
| Y Traeth | 2181 | 213 | £852 |
| Brithdir | 2183 | 35 | £140 |
| Corris | 2185 | 63 | £252 |
| Dinas Mawddwy | 2187 | 30 | £120 |
| Dyffryn Ardudwy | 2189 | 66 | £264 |
| Bro Cynfal | 2190 | 71 | £284 |
| Ganllwyd | 2191 | 18 | £72 |
| Edmwnd Prys | 2192 | 36 | £144 |
| Llanbedr | 2194 | 48 | £192 |
| Llanelltyd | 2197 | 54 | £216 |
| Y Garreg | 2198 | 29 | £116 |
| O. M. Edwards | 2199 | 107 | £428 |
| Manod | 2205 | 108 | £432 |
| Pennal | 2207 | 23 | £92 |
| Cefn Coch | 2208 | 179 | £716 |
| Talsarnau | 2210 | 50 | £200 |
| Tanygrisiau | 2211 | 86 | £344 |
| Penybryn, Tywyn | 2212 | 232 | £928 |
| Bro Hedd Wyn | 2213 | 72 | £288 |
| Bro Tryweryn | 2214 | 58 | £232 |
| Ieuan Gwynedd | 2215 | 19 | £76 |
| Friog | 2216 | 39 | £156 |
| Tan y Castell | 2219 | 76 | £304 |
| Ffridd y Llyn | 2220 | 70 | £280 |
| Maenofferen | 2221 | 238 | £952 |
| Hirael | 2227 | 159 | £636 |
| Craig y Deryn | 2228 | 120 | £480 |
| Bro Llifon | 2229 | 140 | £560 |
| Pont y Gôf | 3004 | 105 | £420 |
| Maesincla | 3005 | 301 | £1,204 |
| Y Faenol | 3009 | 236 | £944 |
| Foel Gron | 3010 | 40 | £160 |
| Llandygai | 3013 | 151 | £604 |
| Llandwrog | 3018 | 51 | £204 |
| Llanystumdwy | 3023 | 30 | £120 |
| Tregarth | 3029 | 115 | £460 |
| Cae Top | 3030 | 240 | £960 |
| Gynradd Dolgellau | 3041 | 144 | £576 |
| Santes Helen | 3300 | 87 | £348 |
| Ein Harglwyddes | 3301 | 128 | £512 |
| Beuno Sant | 3305 | 44 | £176 |
| **CYFANSWM** | | 10,159 | £40,636 |